Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

# Cyfarwyddiadau'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Pwyllgorau Ymgynghorol ar Ynadon Heddwch

Ar gyfer rhanbarthau sy'n ymgymryd â'r Rhaglen Llwybr ar gyfer ynadon (Uplift Pathway Programme - UPP) –

y Gogledd Orllewin, y De Ddwyrain a De Orllewin Lloegr

© Hawlfraint y goron

Cynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Mae’r ddogfen hon ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i’r adran Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol.

# Cynnwys


**Cyflwyniad** ... 4

**Rhan 1 - Pwyllgorau Ymgynghorol** ... 6

- **Statws** ... 6
- **Swyddogaethau** ... 6
- **Cworwm y Pwyllgor Ymgynghorol** ... 7
- **Is-bwyllgorau Ymgynghorol** ... 7
- **Ysgrifenyddion Pwyllgorau Ymgynghorol** ... 7
- **Cadeiryddion Pwyllgorau Ymgynghorol** ... 8
- **Aelodaeth y Pwyllgor Ymgynghorol** ... 10
- **Adleoli (trosglwyddo) i Ardaloedd Cyfiawnder Lleol eraill** ... 12
- **Eithrio rhag bod yn aelod** ... 12
- **Recriwtio aelodau i Bwyllgorau Ymgynghorol** ... 13
- **Ymgeisio a dewis** ... 14
- **Aseswyr Penodiadau Cyhoeddus** ... 21
- **Cadw Cofnodion** ... 21
- **Hyfforddiant** ... 21
- **Ymddygiad a Chwynion** ... 22
- **Materion i'w dwyn i sylw'r ysgrifennydd** ... 22
- **Cofrestr buddiannau** ... 22
- **Treuliau** ... 23
- **Achosion cyfreithiol** ... 23
- **Perthynas y Pwyllgor Ymgynghorol â GLITEF, Cadeiryddion y Fainc a chadeiryddion paneli teulu** ... 23

# Cyflwyniad

Mae'r cyfarwyddiadau hyn ar gyfer rhanbarthau sy'n ymgymryd â'r Rhaglen Llwybr ar gyfer ynadon (Uplift Pathway Programme - UPP) – y Gogledd Orllewin, y De Ddwyrain a De Orllewin Lloegr. Dylai pob rhanbarth arall ddefnyddio Cyfarwyddiadau gwreiddiol yr Arglwydd Ganghellor.

Mae Cyfarwyddiadau'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Pwyllgorau Ymgynghorol ar Ynadon Heddwch yn amlinellu rôl a swyddogaeth Pwyllgorau Ymgynghorol ochr yn ochr â'r prosesau recriwtio a chynefino ar gyfer ynadon.

Mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn cael eu diweddaru o bryd i'w gilydd i sicrhau arferion gweithredol effeithiol ac effeithlon parhaus.

Mae chwe rhan i'r ddogfen:

- Rhan 1 - Pwyllgorau Ymgynghorol
- Rhan 2 - Cymhwysedd ar gyfer yr ynadaeth
- Rhan 3 - Y broses ddethol ar gyfer ynadon
- Rhan 4 Cyflwyno argymhellion ar gyfer penodi
- Rhan 5 - Materion yn codi ar ôl penodi
- Rhan 6 - Adfer yr ynadaeth

Rhaid i Bwyllgorau Ymgynghorol lynu wrth y Cyfarwyddiadau hyn a defnyddio'r deunyddiau sydd ar gael ym mhecyn cymorth y Pwyllgor Ymgynghorol. Cydnabyddir na all y Cyfarwyddiadau ddarparu ar gyfer pob amgylchiad a fydd yn codi yn ystod gwaith Pwyllgor. Dylai pwyllgorau arfer disgresiwn synhwyrol wrth ddelio â materion o'r fath, gan sicrhau nad ydynt yn gwyro oddi wrth ysbryd y Cyfarwyddiadau. Lle bo angen, dylent ofyn am arweiniad gan adran Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol ynghylch unrhyw ymholiadau o ran cymhwyso'r Cyfarwyddiadau hyn i faterion penodol.

Yr Arglwydd Brif Ustus sy'n gyfrifol am benodi ynadon[1], ac mae wedi[2] dirprwyo'r pŵer i benodi ynadon i'r Uwch Farnwr Llywyddol. Mae gan yr Arglwydd Ganghellor gyfrifoldeb ar y cyd â'r Arglwydd Brif Ustus dros faterion eraill sy'n ymwneud ag ynadon, gan gynnwys cyfrifoldeb disgyblu. Mae'r Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus a'r Uwch Farnwr Llywyddol yn ymddiried yn sylweddol mewn Pwyllgorau Ymgynghorol a byddant fel arfer yn gweithredu ar eu hargymhellion ac yn cefnogi eu penderfyniadau. Fodd bynnag, efallai y bydd adegau pan fyddant yn anghytuno â phenderfyniad Pwyllgor ac yn ei wrthod. Wrth wneud hynny, byddant yn rhoi eu rhesymau i'r Pwyllgor.

[1] Deddf Troseddu a Llysoedd 2013
[2] Atodlen 13 Deddf Troseddau a Llysoedd 2013

Mae gan Bwyllgorau Ymgynghorol rôl mewn achosion disgyblu ac maent yn rhan o system lle rhennir cyfrifoldeb statudol dros faterion disgyblu barnwrol yn y pen draw gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus[3].

Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd copïau caled o'r Cyfarwyddiadau hyn ar gael. Dylid gwneud unrhyw geisiadau am gopïau caled, neu am gopïau mewn fformatau eraill megis Braille, i adran Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol.

---

[3] Rheolau Ymddygiad Barnwrol (Tribiwnlysoedd) 2014: https://jcio.sharepoint.com/Rules%20and%20Regulations/Judicial_Conduct_Magistrates_Rules_2014.pdf?originalPath=aHR0cHM6Ly9qY2lvLnNoYXJlcG9pbnQuY29tLzpiOi9nL0VXdTZ3RDlQQUdaRnRfQ1dENDdac0ZNQjhXbGVTLUZiczVuOWhCSXl0TmJCTFE_cnRpbWU9NWthZ3NoVWcyVWc

# Rhan 1 - Pwyllgorau Ymgynghorol

## Statws

1.1 Cyrff cyhoeddus anadrannol cynghori yw Pwyllgorau Ymgynghorol yr Arglwydd Ganghellor ar Ynadon Heddwch sy'n cyflawni swyddogaethau ar ran yr Arglwydd Ganghellor.

1.2 Yr Arglwydd Ganghellor sy'n pennu nifer y Pwyllgorau Ymgynghorol, eu trefniadaeth, eu strwythur, eu haelodaeth a'u harferion gweithredu.

1.3 Oni nodir yn wahanol, mae'r term 'Pwyllgor Ymgynghorol' yn cyfeirio at Bwyllgorau Ymgynghorol ar Ymddygiad a Recriwtio.

## Swyddogaethau

1.4 Dyma swyddogaethau'r Pwyllgorau Ymgynghorol ar Recriwtio:

- recriwtio ac argymell ymgeiswyr i'w penodi i'r ynadaeth (yn unol ag **Atodiad 1A)** i'r Uwch Farnwr Llywyddol (sy'n arfer swyddogaethau ar ran yr Arglwydd Brif Ustus);
- recriwtio ac argymell ymgeiswyr i'r Arglwydd Ganghellor, i fod yn aelodau o'r Pwyllgor Ymgynghorol;
- ystyried ceisiadau am adolygu penderfyniadau sy'n ymwneud ag argymhellion ar gyfer penodi;
- annog ceisiadau gan grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli i ymaelodi â'r ynadaeth a'r Pwyllgor Ymgynghorol; a hefyd
- ystyried a chyflwyno sylwadau ar y data a gasglwyd gan Ysgrifennydd y Pwyllgor fel rhan o ymarferion adnoddau barnwrol.

1.5 Dyma swyddogaethau'r Pwyllgorau Ymgynghorol ar Ymddygiad:

- sicrhau bod ynadon yn cyflawni eu hymrwymiadau i eistedd a chwblhau'r hyfforddiant gofynnol, a chynnal yr ymrwymiadau a roddir drwy lofnodi'r ffurflen Datganiad ac Ymgymeriadau (**Atodiad 4C**);
- ymchwilio i honiadau o gamymddwyn gan ynadon a gwneud argymhellion i'r Arglwydd Brif Ustus a'r Arglwydd Ganghellor yn unol â Rheolau Ymddygiad Barnwrol (Ynadon) 2014 a Rheolau Ynadon Heddwch 2016;
- ystyried penderfyniadau gan y Pwyllgor Hyfforddi, Cymeradwyo, Awdurdodi a Gwerthuso Teulu (FTAAAC) a'r Pwyllgor Cymeradwyo, Awdurdodi a Gwerthuso Hyfforddiant Ynadon (JTAAAC) lle mae ynad wedi methu cyrraedd y safon ofynnol;

- gwneud unrhyw argymhelliad ffurfiol i dynnu ynad i'r Arglwydd Brif Ustus a'r Arglwydd Ganghellor yn unol â Rheolau Ymddygiad Barnwrol (Ynadon) 2014 a Rheolau Ynadon Heddwch 2016;
- rheoli materion ôl-benodi megis trosglwyddiadau ar draws Ardaloedd Cyfiawnder Lleol, ail-benodiadau ac ailysgogiadau ac ystyried materion sy'n ymwneud ag eisteddiadau a cheisiadau am ganiatâd i fod yn absennol a gyfeirir at y Pwyllgor Ymgynghorol gan Gadeiryddion y Fainc (yn unol â Rhan 5); a hefyd
- cadw golwg strategol ar lefelau eistedd a chaniatâd i fod yn absennol er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o faterion a allai effeithio ar niferoedd recriwtio yn y dyfodol.

## Cworwm y Pwyllgor Ymgynghorol

1.6 Os nad yw'r Pwyllgor Ymgynghorol llawn yn gallu cyfarfod, bydd unrhyw adolygiad o gais ymgeisydd nad yw wedi'i benodi i'r ynadaeth yn gofyn am gworwm o'r Pwyllgor Ymgynghorol llawn sy'n cynnwys y Cadeirydd a dim llai na chwe aelod. Dylai traean o'r rhain fod yn aelodau nad ydynt yn ynadon.

## Is-bwyllgorau Ymgynghorol

1.7 Bydd is-bwyllgorau'n banel o ddau banel o leiaf (yn unol ag adrannau Rhan 3 ar baneli cyfweld lle mae is-bwyllgorau recriwtio dan sylw) a byddant yn arfer eu swyddogaethau ar ran y Pwyllgor Ymgynghorol.

1.8 Rhaid i is-bwyllgorau beidio â gwyro oddi wrth unrhyw ganllawiau neu gyfarwyddyd a roddir iddynt gan y Pwyllgor Ymgynghorol.

1.9 Bydd awdurdod unrhyw is-bwyllgor yn dod i ben pan wneir yr argymhelliad terfynol.

## Ysgrifenyddion Pwyllgorau Ymgynghorol

### Penodi

1.10 Bydd gan bob Pwyllgor Ymgynghorol Ysgrifennydd. Penodir ysgrifenyddion gan Dîm Penodiadau'r Swyddfa Farnwrol ar ran yr Arglwydd Ganghellor, ar argymhelliad Pennaeth Gweithrediadau Cyfreithiol GLITEF. Bydd penodiadau newydd yn cael eu cadarnhau'n ysgrifenedig.

1.11 Gall yr Ysgrifennydd benodi Dirprwy Ysgrifennydd, gyda chytundeb Cadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol a Phennaeth Gweithrediadau Cyfreithiol GLITEF; a gall hefyd ddirprwyo dyletswyddau i staff eraill GLITEF.

1.12 Dylid rhoi gwybod i adran Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol am newidiadau sydd ar y gweill o ran Ysgrifenyddion a Dirprwy Ysgrifenyddion.

### Dyletswyddau

1.13 Dyma ddyletswyddau'r Ysgrifennydd/Dirprwy Ysgrifennydd:

- sicrhau bod y Pwyllgor Ymgynghorol yn gwbl gyfarwydd â'r polisïau a'r prosesau a nodir yn y Cyfarwyddiadau hyn, ac yn glynu wrthynt, yn ogystal â chyflawni'r cyfrifoldebau a neilltuir iddynt gan y Cyfarwyddiadau hyn;
- gwneud penderfyniadau ynghylch a oes modd penodi ymgeiswyr yn ystod y cam cyn sgrinio;
- rhoi cyngor i Bwyllgorau Ymgynghorol i'w helpu i gyflawni eu swyddogaethau - gallai hyn gynnwys cyngor ar sicrhau ansawdd ffurflenni asesu cyfweliad wedi'u llenwi, neu gyngor ar faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad;
- rhoi manylion i'r Pwyllgor Ymgynghorol am nifer yr ynadon newydd sydd eu hangen yn dilyn y Protocol Rhagolygon Barnwrol;
- goruchwylio'r gwaith o recriwtio ynadon newydd ac aelodau newydd i'r Pwyllgor Ymgynghorol;
- cydnabod a goruchwylio'r gwaith o graffu'n briodol ar geisiadau;
- lle bo angen, gofyn am eirdaon;
- trefnu cyfweliadau a hysbysu ymgeiswyr;
- sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud i alluogi ymgeiswyr ag anabledd i gael eu cyfweld;
- rhoi gwybod i ymgeiswyr am hynt eu cais ac am ganlyniad y cais hwnnw;
- paratoi'r cyflwyniad penodiadau a'r adroddiad eisteddiadau blynyddol ar gyfer y Pwyllgor Ymgynghorol; a hefyd
- cefnogi ymchwiliadau i ymddygiad, fel sy'n ofynnol gan Reolau Ymddygiad Barnwrol (Ynadon) 2014.

## Cadeiryddion Pwyllgorau Ymgynghorol

### Arglwydd Raglawiaid

1.14 Bydd yr Arglwydd Ganghellor, gyda chytundeb yr Arglwydd Brif Ustus, fel arfer yn gwahodd Arglwydd Raglawiaid i gadeirio Pwyllgorau Ymgynghorol.

1.15 Pan fydd ardal Pwyllgor Ymgynghorol yn croestorri â mwy nag un achos, dylai'r Arglwydd Raglawiaid dan sylw gytuno pa un ohonynt fydd yn cadeirio'r Pwyllgor Ymgynghorol. Gellir rhannu'r rôl ar yr amod nad oes gan y Pwyllgor Ymgynghorol wrthwynebiad.

1.16 Gall Arglwydd Raglaw barhau i gadeirio Pwyllgor Ymgynghorol hyd nes y bydd yn peidio â bod yn Arglwydd Raglaw.

### Cadeiryddion sy'n cael eu penodi o blith aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol

1.17 Bydd yr Arglwydd Ganghellor, gyda chytundeb yr Arglwydd Brif Ustus, yn penodi Cadeiryddion Pwyllgorau Ymgynghorol nad ydynt yn Arglwyddi Rhaglaw ar argymhelliad aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol dan sylw.

1.18 Mater i bob Pwyllgor Ymgynghorol yw penderfynu sut i gyrraedd eu henwebiad. Os nad oes cytundeb, dylai'r Ysgrifennydd gynnal pleidlais gudd. Os yw hynny'n amhendant, y Cadeirydd sy'n ymadael fydd yn cael y bleidlais benderfynu.

1.19 Ar ôl cael ei benodi, bydd y Cadeirydd yn aros yn y rôl am gyfnod ei benodiad i'r Pwyllgor Ymgynghorol, oni bai ei fod yn dewis ymddiswyddo'n gynharach, neu fod yr Arglwydd Ganghellor yn terfynu ei benodiad.

**Rôl y Cadeirydd**

1.20 Dyma rôl y cadeirydd:

- cynrychioli rôl y Pwyllgor Ymgynghorol gerbron y cyhoedd yn ôl yr angen;
- sicrhau bod y Pwyllgor Ymgynghorol yn cyfarfod ar adegau priodol ac i gadeirio'r cyfarfodydd;
- cynnal trafodaethau gydag aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol nad ydynt yn mynychu dau gyfarfod yn olynol, neu nad ydynt yn cyfrannu'n effeithiol at waith y Pwyllgor;
- cadeirio cyfweliadau ar gyfer aelodau newydd o'r Pwyllgor Ymgynghorol;
- sicrhau bod aelodau newydd y Pwyllgor Ymgynghorol yn cael eu cynefino pan gânt eu penodi;
- cyflwyno asesiad ar gais o berfformiad aelod o'r Pwyllgor Ymgynghorol os yw'n cael ei ystyried ar gyfer ei benodi i gorff cyhoeddus arall; a hefyd
- ar gyfer Pwyllgorau Ymddygiad, cadeirio cyfarfodydd Aelodau Pwyllgor Enwebedig a bod yn bwynt cyswllt cyntaf gyda'r Ysgrifennydd ar faterion sy'n codi o dan Ran 5 o'r Cyfarwyddiadau hyn a rheoli busnes cyffredinol y pwyllgor o dan Reolau Ymddygiad Barnwrol (Ynadon) 2023.

1.21 Argymhellir bod y Cadeirydd yn enwebu Dirprwy Gadeirydd i gyflawni dyletswyddau ar ei ran. Os nad yw'r Cadeirydd yn ynad, argymhellir bod ynad yn cael ei ddewis ar gyfer rôl Dirprwy Gadeirydd.

1.22 Gall y Cadeirydd, neu'r Dirprwy Gadeirydd enwebedig, gyda chytundeb y Pwyllgor Ymgynghorol, weithredu ar ran y Pwyllgor.

1.23 Gall y Cadeirydd, neu'r Dirprwy Gadeirydd enwebedig, weithredu ar ran y Pwyllgor heb ofyn am ei gytundeb yn yr amgylchiadau eithriadol canlynol:

- rhaid datrys mater brys cyn cynnull cyfarfod o’r Pwyllgor llawn neu'r cworwm; neu
- mae mater cyfrinachol yn codi nad oes modd i’r Pwyllgor llawn na'r cworwm ddelio ag ef.

## Aelodaeth y Pwyllgor Ymgynghorol

1.24 Mae’r Arglwydd Ganghellor yn penodi aelodau o Bwyllgorau Ymgynghorol gyda chydsyniad yr Arglwydd Brif Ustus. Mae’r Arglwydd Ganghellor wedi dirprwyo’r swyddogaeth hon i swyddogion adran Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol.

### Maint a chyfansoddiad

1.25 Dylai penderfyniadau i amrywio maint Pwyllgor Ymgynghorol gael eu cytuno gan yr Ysgrifennydd a’r Cadeirydd, a ddylai hefyd ofyn am farn aelodau’r Pwyllgor fel y bo’n briodol.

### Pwyllgorau Ymgynghorol ar Recriwtio

1.26 Er mwyn cefnogi cyfansoddiad panel effeithiol, argymhellir bod o leiaf traean o’r aelodau’n aelodau nad ydynt yn ynadon. Mae hyn er mwyn galluogi, cyn belled ag y bo’n ymarferol, un aelod o bob panel cyfweld i gynnwys aelod nad yw’n ynad.

1.27 Rhaid i o leiaf draean o’r aelodau sy’n ynadon fod yn ynadon teulu. Mae hyn er mwyn galluogi, cyn belled ag y bo’n ymarferol, un aelod o bob panel cyfweld â theulu i fod yn ynad teulu.

### Pwyllgorau Ymgynghorol ar Ymddygiad

1.28 Bydd Pwyllgorau Ymgynghorol ar Ymddygiad yn cael eu ffurfio’n gyfan gwbl o blith Aelodau Dynodedig y Pwyllgor, pob un yn cael ei benodi ar sail teilyngdod gan ddilyn y prosesau a ddisgrifir isod ac yn y polisi cysylltiedig.

1.29 Dylai pwyllgorau anelu at sicrhau bod traean o’u haelodau yn rhai nad ydynt yn ynadon a’u bod yn cynnal cynrychiolaeth o aelodau sy’n ynadon teulu.

1.30 Bydd pob Pwyllgor Ymgynghorol ar Ymddygiad yn cynnwys aelodau sydd â’r sgiliau a’r profiad perthnasol fel y dangosir drwy’r broses recriwtio fel y’u diffinnir yn yr Atodiadau i Ran 1 y Cyfarwyddiadau hyn.[4]

### Rôl yr aelodau

1.31 Rôl aelodau’r Pwyllgor Ymgynghorol yw cyflawni’r swyddogaethau a bennir gan y Cyfarwyddiadau hyn ac yn unol â hwy.

1.32 Disgwylir i aelodau wneud y pethau canlynol:

---

[4] Gall yr Arglwydd Ganghellor a’r Arglwydd Brif Ustus gytuno ar ddarpariaethau trosiannol ar gyfer ailgyfansoddi Pwyllgorau Ymgynghorol ar Ymddygiad ac os felly cynhwysir manylion y broses ymgeisio a recriwtio mewn dogfen bolisi gysylltiedig fel y gwelir yn 1.40 isod

- mynd i gyfarfodydd, oni bai fod ganddynt reswm dilys dros beidio â bod yn bresennol - os bydd aelod yn methu â bod yn bresennol mewn dau gyfarfod yn olynol heb reswm da (yn unol â bod Cadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol yn fodlon ar y rheswm hwnnw), disgwylir i'r aelod hwnnw ymddiswyddo o'r Pwyllgor Ymgynghorol;
- Mynd i unrhyw hyfforddiant yn ôl y gofyn;
- cyfrannu'n effeithiol at waith y Pwyllgor Ymgynghorol;
- eistedd mewn o leiaf 7 cyfweliad y flwyddyn (efallai y gofynnir i aelodau wneud mwy, yn amodol ar angen lleol). Disgwylir i aelodau flaenoriaethu cyfweliadau yn eu Pwyllgor Ymgynghorol lleol. Lle mae cyfleoedd lleol yn brin, bydd disgwyl i aelodau gynnal cyfweliadau drwy'r gronfa genedlaethol;
- glynu wrth y polisïau a'r prosesau a nodir yn y Cyfarwyddiadau hyn;
- dilyn unrhyw ganllawiau ychwanegol a gyhoeddir gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus neu eu cynrychiolwyr; a hefyd
- bod yn gyfarwydd â rheolau/canllawiau sy'n ymwneud â'u maes gwaith.

**Cyfnod yn y Swydd**

1.33 Bydd aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol yn cael eu penodi am gyfnod o naw mlynedd neu, os yw'n gynharach, nes iddynt gyrraedd yr oed ymddeol statudol.

1.34 Nid yw'n ofynnol i ymgeiswyr warantu y byddant yn gwasanaethu am gyfnod llawn o naw mlynedd.

1.35 Gellir ymestyn penodiadau am uchafswm o flwyddyn, ond dim ond am resymau busnes eithriadol. Dylai Pwyllgorau gysylltu ag adran Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol i drafod gwneud cais i ymestyn penodiad. Rhaid rhoi gwybod i'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus am unrhyw estyniad sy'n ymestyn cyfanswm y cyfnod penodi y tu hwnt i ddeng mlynedd.

1.36 Ni fydd cyn-aelodau sydd wedi cwblhau cyfnod o naw mlynedd yn cael eu hailbenodi.

1.37 Nid yw cyn-aelodau a fu'n gwasanaethu am gyfnod o lai na naw mlynedd cyn hynny, yn cael eu hatal rhag gwasanaethu am dymor arall. Ni chaiff cyfanswm cronnus y ddau gyfnod fod yn fwy na naw mlynedd, heb gynnwys estyniadau.

1.38 Ni chaiff cyfanswm cronnus y cyfnodau ar gyfer unrhyw aelodau sy'n symud rhwng Pwyllgorau Ymgynghorol ar Recriwtio a Phwyllgorau Ymgynghorol ar Ymddygiad fod yn fwy na naw mlynedd, heb gynnwys estyniadau.

1.39 Caiff yr Arglwydd Ganghellor derfynu penodiad aelod gyda chydsyniad yr Arglwydd Brif Ustus, neu'r aelod dan sylw.

*Darpariaethau Trosiannol ar ailgyfansoddi Pwyllgorau Ymgynghorol ar Ymddygiad*

1.40 Gall yr Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus gytuno ar ddarpariaethau trosiannol ar gyfer ailgyfansoddi Pwyllgorau Ymgynghorol ar Ymddygiad er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu rolau'r Aelodau Pwyllgor Enwebedig.

## Symud (trosglwyddo) i Ardaloedd Cyfiawnder Lleol eraill

1.41 Os bydd aelod o'r Pwyllgor Ymgynghorol yn dymuno trosglwyddo o'i Bwyllgor Ymgynghorol presennol i Bwyllgor gwahanol, dylai'r aelod gysylltu â Chadeirydd ei Bwyllgor Ymgynghorol i drafod ei resymau dros fod eisiau trosglwyddo. Yn gyffredinol, bydd hyn oherwydd eu bod naill ai wedi newid cyfeiriad cartref neu leoliad eu gweithle.

1.42 Dylai Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol y penodir yr aelod iddo ar hyn o bryd gysylltu ag Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol y mae'r aelod yn dymuno trosglwyddo iddo i roi gwybod iddo am gais i drosglwyddo.

1.43 Wrth wneud y penderfyniad ar gyfer y trosglwyddo, bydd angen i'r Pwyllgor Ymgynghorol ystyried a oes ganddynt unrhyw swyddi gwag a'r cydbwysedd rhwng ynadon/aelodau nad ydynt yn ynadon ar eu pwyllgor. Dylid trafod a chytuno ar amseriad unrhyw symud gyda Chadeirydd presennol y Pwyllgor Ymgynghorol i sicrhau nad effeithir ar ymrwymiadau parhaus y Pwyllgor.

1.44 Unwaith y bydd trefniadau ar waith, dylid hysbysu adran Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol o'r dyddiad y daw'r trosglwyddiad i rym fel y gellir diwygio cronfa ddata adran Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol. Dim ond am gyfanswm o naw mlynedd y gall aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol wasanaethu, ni waeth sawl Pwyllgor Ymgynghorol y maent wedi gwasanaethu ynddynt (oni bai fod yr eithriadau yn 1.40 a 1.45 yn berthnasol).

## Eithrio rhag bod yn aelod

### Ynadon

1.45 Mae ychydig o ffactorau a fyddai'n anghymhwyso ynad sy'n gwasanaethu rhag bod yn aelod o Bwyllgor neu is-bwyllgor Ymgynghorol.

1.46 Nid yw Cadeiryddion y Fainc na Dirprwy Gadeiryddion y Fainc yn cael bod yn aelodau o Bwyllgorau Ymgynghorol.

1.47 Ni chaiff aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Ymddygiad fod yn aelodau o'r Pwyllgorau Cymeradwyo, Gwerthuso ac Awdurdodi Hyfforddiant Barnwrol (JTAAAC) na'r Pwyllgorau Cymeradwyo, Gwerthuso ac Awdurdodi Hyfforddiant Teulu (FTAAAC) gan fod gwrthdaro posibl rhwng buddiannau pe bai'r Pwyllgorau hyn yn penderfynu rhoi gwybod i'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Ymddygiad am ynad ar sail diffyg cymhwysedd. Os oes angen busnes hanfodol, gall aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Recriwtio fod yn aelodau o Bwyllgor Cymeradwyo, Gwerthuso ac Awdurdodi Hyfforddiant Barnwrol neu Bwyllgor Cymeradwyo, Gwerthuso ac Awdurdodi Hyfforddiant Teulu.

1.48 Ar gyfer aelodau panel nad ydynt yn ynadon, dylai Pwyllgorau Ymgynghorol ddefnyddio'r ffactorau sy'n effeithio ar gymhwysedd (a nodir yn Rhan 2 o'r Cyfarwyddiadau hyn) fel canllaw cyffredinol ar gymhwysedd.

1.49 Rhaid i aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol sy'n cael eu mabwysiadu fel ymgeisydd seneddol, neu sy'n cael eu penodi fel asiant gwleidyddol llawn-amser, ar gyfer etholaeth sy'n croestorri ag ardal y Pwyllgor Ymgynghorol, neu sy'n gyfagos iddi, ymddiswyddo o'r Pwyllgor.

### Swyddi nad ydynt yn rhai ynadon

1.50 Ni ddylid recriwtio cyn ynadon fel aelodau nad ydynt yn ynadon o Bwyllgorau Ymgynghorol nac is-bwyllgorau, neu fel arall bydd y Pwyllgorau'n colli'r persbectif newydd y mae pobl heb gefndir yn yr ynadaeth yn ei gynnig i'r rôl.

### Cadeiryddion y Fainc

1.51 Er nad oes disgwyl i Gadeiryddion y Fainc/Dirprwy Gadeiryddion y Fainc gael eu gwahodd fel mater o drefn i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Ymgynghorol, dylai Pwyllgorau eu gwahodd i o leiaf un cyfarfod cyffredinol y flwyddyn.

1.52 Os oes angen, dylid llunio agendâu cyfarfodydd er mwyn caniatáu i Gadeiryddion y Fainc/Dirprwy Gadeiryddion y Fainc dynnu'n ôl ar yr adeg y daw'r Pwyllgor i faterion fel ymgeiswyr ar gyfer achosion penodi ac ymddygiad.

1.53 Ni chaiff Cadeiryddion y Fainc eistedd mewn cyfweliadau ar gyfer ynadon newydd na bod yn bresennol yn ystod trafodaethau am ymgeiswyr na materion ymddygiad.

1.54 Y tu allan i'r cyfyngiadau hyn, mae modd gwahodd Cadeiryddion y Fainc/Dirprwy Gadeiryddion y Fainc i gyfarfodydd Pwyllgorau Ymgynghorol at ddibenion ymgynghorol, lle na fydd ganddynt bleidlais, xos gallant gyflwyno gwybodaeth berthnasol ac uniongyrchol a fyddai'n helpu'r Pwyllgor i gael y drafodaeth fwyaf gwybodus am faterion penodol.

## Recriwtio aelodau i Bwyllgorau Ymgynghorol

1.55 Mae'r broses recriwtio a dethol ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol yn dod o fewn cylch gwaith Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus (OCPA) a rhaid iddi gyd-fynd â'r egwyddorion sy'n sail i God Llywodraethiant Swyddfa'r Cabinet ar Benodiadau Cyhoeddus.[5].

1.56 Rhaid i unrhyw weithgaredd recriwtio sy'n golygu cost gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan y swyddog perthnasol o GLITEF neu'r Swyddfa Farnwrol sydd â chyfrifoldebau cyllidebol.

1.57 Argymhellir bod hysbysebion yn pwysleisio y byddai'r Pwyllgor yn croesawu'n arbennig geisiadau gan grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli ymysg ei aelodau ac yn nodi'r grwpiau hynny wrth hysbysebu.

---

[5] https://www.gov.uk/government/publications/governance-code-for-public-appointments

1.58 Mae gofyn i Bwyllgorau Ymgynghorol sy'n recriwtio yng Nghymru roi sylw penodol i ofynion eu cynlluniau Cymraeg eu hunain.

1.59 Dylai ymgeiswyr i Bwyllgorau Ymgynghorol lenwi'r ffurflen gais i Bwyllgorau Ymgynghorol ar Ynadon Heddwch **(Atodiad 1B (Rhan 2)).** Dylai ymgeiswyr hefyd fod yn ymwybodol o'r canllawiau ar gyfer ymgeiswyr i fod yn aelodau o Bwyllgorau Ymgynghorol **(Atodiad 1B (Rhan 1)).**

### Aelodau sy'n ynadon

1.60 Rhaid hysbysebu swyddi gwag ar gyfer aelodau sy'n ynadon i bob ynad yn yr ardal.

### Aelodau nad ydynt yn ynadon

1.61 Rhaid hysbysebu swyddi gwag ar gyfer aelodau nad ydynt yn ynadon ar wefan Penodiadau Cyhoeddus Swyddfa'r Cabinet: https://publicappointments.cabinetoffice.gov.uk/.

1.62 Dylid anfon ffurflenni cais wedi'u llenwi dros e-bost gydag unrhyw atodiadau at: publicappointmentsteam@justice.gsi.gov.uk.

1.63 Ar gyfer ymholiadau sy'n ymwneud â lleoliad swyddi gwag, cysylltwch â'r un cyfeiriad e-bost.

1.64 Dylai pob deunydd cyhoeddusrwydd arddangos nod barcud rheoleiddio'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus (ar gael gan adran Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol).

1.65 Ni ddylai ymgeiswyr nad ydynt yn ynadon ddatgelu euogfarnau sydd wedi darfod yn ystod y broses ymgeisio. Pan fydd euogfarn sydd wedi darfod wedi cael ei datgelu mewn camgymeriad, ni ddylai'r Pwyllgor Ymgynghorol na'r Swyddfa Farnwrol ei hystyried ac ni all fod yn sail dros eithrio rhywun o unrhyw swydd na'i ragfarnu mewn unrhyw ffordd.

## Ymgeisio a dewis

### Y drefn ymgeisio ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol

1.66 Mae'r egwyddorion canlynol yn berthnasol wrth ymdrin â phob cais:

- rhaid trin ceisiadau'n deg, yn gyson ac yn gyflym;
- rhaid asesu ymgeiswyr ar sail teilyngdod - ni ddylid ystyried unrhyw ffactorau eraill;
- rhaid trin ymgeiswyr gyda chwrteisi a pharch;
- mae'n anghyfreithlon i ymgeiswyr gael eu heithrio neu fod o dan anfantais ar sail unrhyw nodweddion gwarchodedig fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010[6]; a hefyd

[6] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents

- mae gwybodaeth am unigolyn a geir drwy'r broses ddethol yn gyfrinachol.

1.67 Dylai'r pecyn ymgeisio a gwybodaeth ar gyfer ymgeiswyr gynnwys y canlynol:

- Atodiad 1A - Paramedrau Gweithgaredd Recriwtio Ynadon;
- Atodiad 1B (Rhan 1) - Gwneud cais i fod yn aelod o Bwyllgor Ymgynghorol: nodiadau cyfarwyddyd;
- Atodiad 1B (Rhan 2) - Cais i gael eich penodi'n aelod o Bwyllgor Ymgynghorol yr Arglwydd Ganghellor ar Ynadon Heddwch;
- Atodiad 1C (Rhan 1) - Geirda ar gyfer ymgeisydd sy'n gwneud cais i'w benodi'n aelod nad yw'n ynad ar Bwyllgor Ymgynghorol yr Arglwydd Ganghellor ar ynadon heddwch;
- Atodiad 1C (Rhan 2) - Geirda ar gyfer ymgeisydd sy'n gwneud cais i'w benodi'n aelod nad yw'n ynad ar Bwyllgor Ymgynghorol yr Arglwydd Ganghellor ar ynadon heddwch - canllawiau ar gyfer canolwyr;
- Atodiad 1D - Holiadur monitro data ac amrywiaeth; a hefyd
- Atodiad 1G - Datganiad ar gyfer cofrestru buddiannau aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol.

1.68 Rhaid i ymgeiswyr lenwi'r ffurflen gais safonol yn **Atodiad 1B.**

1.69 Rhaid gofyn am eirda ar gyfer ymgeiswyr nad ydynt yn ynadon gan ddefnyddio'r ffurflen yn **Atodiad 1C**.

1.70 Rhaid i ymgeiswyr lenwi'r holiadur monitro amrywiaeth a data yn **Atodiad 1D.**

1.71 Rhaid i bob ymgeisydd am aelodaeth pwyllgor gael ei asesu ar sail teilyngdod yn unig yn erbyn y meini prawf a nodir yn **Atodiad 1C.** Ni ellir ystyried unrhyw ffactorau eraill.

**Paneli**

1.72 Dylai'r Pwyllgor Ymgynghorol sefydlu panel penodi a fydd yn cynnwys y canlynol:

1.72.1 Ar gyfer y Pwyllgorau Ymgynghorol ar Recriwtio:

- Cadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol (neu'r Dirprwy Gadeirydd enwebedig) i gadeirio'r panel;
- un aelod o'r Pwyllgor Ymgynghorol; ac
- aelod annibynnol o'r panel, a ddylai fod yn aelod o Bwyllgor Ymgynghorol gwahanol.

1.72.2 Ar gyfer y Pwyllgorau Ymgynghorol ar Ymddygiad:

- Un aelod o'r Pwyllgor Ymgynghorol;

- Aelod annibynnol o’r panel, a ddylai fod yn aelod o Bwyllgor Ymgynghorol gwahanol; a hefyd
- Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol.

1.73 Rhaid i o leiaf un person ar bob panel fod yn aelod nad yw’n ynad.

1.74 Yn gyffredinol, ni fydd ymgeiswyr yn cael ad-daliad am gostau teithio yn ôl ac ymlaen o gyfweliadau, nac am unrhyw dreuliau eraill sy’n codi wrth fynd ar drywydd eu cais. Byddai angen i unrhyw benderfyniad a wneir yn lleol i ad-dalu costau i ymgeiswyr unigol gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan uwch swyddog priodol GLITEF.

**Aelod Annibynnol o’r Panel**

1.75 Yn ôl Cod Llywodraethu Swyddfa’r Cabinet ar Benodiadau Cyhoeddus, nid oes gofyniad i wahaniaethu rhwng ynadon ac aelodau nad ydynt yn ynadon ar y Pwyllgor Ymgynghorol. Mae’r ddau yn cael eu cydnabod yn y diffiniad o ‘aelod annibynnol’.

1.76 Rhaid i’r panel dethol allu asesu ymgeiswyr yn ddiduedd yn erbyn y meini prawf dethol yn unol ag egwyddorion tegwch, bod yn agored a phenodi ar sail teilyngdod. Yn unol â Chod Llywodraethiant Swyddfa’r Cabinet ar Benodiadau Cyhoeddus, dylai’r asesiad hwn geisio cynnwys persbectif allanol, a fydd fel arfer yn cael ei sicrhau drwy gael un aelod o’r panel sy’n annibynnol ar ardal y Pwyllgor Ymgynghorol sy’n penodi y gwneir y penodiad iddi.

1.77 Rôl yr aelod panel annibynnol yw cynnig her allanol a pherfformio fel aelod effeithiol o’r panel a chymryd rhan lawn yn y broses ddethol gan gynnwys cymryd rhan yn y panel cyfweld a chymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau terfynol ynghylch ymgeiswyr sy’n addas i’w penodi.

1.78 Mae’r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus wedi cytuno, oherwydd cymesuredd, bod aelod sy’n ynad o Bwyllgor Ymgynghorol cyfagos yn gallu cynnig her allanol, felly os bydd gofyniad i wneud hynny, gellir cwrdd â’r aelod annibynnol o’r panel ar gyfer penodiadau i’r Pwyllgor Ymgynghorol drwy ddod o hyd i aelod sy’n ynad o ardal wahanol o’r Pwyllgor Ymgynghorol i eistedd ym mhob cyfweliad ar gyfer penodiadau i Bwyllgorau Ymgynghorol ac nid oes angen iddo fod yn aelod nad yw’n ynad.

1.79 Gall yr aelod panel annibynnol naill ai fod yn ynad neu’n aelod nad yw’n ynad o Bwyllgor Ymgynghorol gwahanol ar gyfer pwyllgorau ymddygiad, gan nodi 1.77 uchod.

1.80 Bydd GLITEF yn talu costau teithio a chynhaliaeth rhesymol yr aelod annibynnol o’r panel. Dylai’r rhain gael eu cymeradwyo ymlaen llaw gan uwch swyddog priodol GLITEF.

**Ymgeiswyr sydd ag anableddau**

1.81 Dylid gwneud addasiadau rhesymol i alluogi ymgeiswyr i fynd i gyfweliadau.

1.82 Ni ddylid gofyn unrhyw gwestiynau i ymgeiswyr anabl am eu hanabledd, na sut maen nhw'n meddwl y gallai effeithio ar eu gallu i wasanaethu ar Bwyllgor Ymgynghorol. Mae hyn yn cynnwys cwestiynau am deithio i gyfarfodydd/cael mynediad i adeiladau. Os bydd ymgeisydd yn ceisio trafod pynciau o'r fath yn ei gyfweliad, dylid rhoi gwybod iddo nad yw'n briodol gwneud hynny a'i sicrhau mai pwrpas y cyfweliad yw ei asesu ar sail teilyngdod yn unig.

**Cyfweliad**

1.83 Nid oes fformat penodol ar gyfer y cwestiynau y dylid eu gofyn mewn cyfweliadau. Fel canllaw cyffredinol, dylai paneli cyfweld ofyn cwestiynau agored sy'n rhoi cyfle i ymgeiswyr gyflwyno tystiolaeth yn erbyn y meini prawf a nodir yn Atodiad 1C. Gellid cyflawni hyn, er enghraifft, drwy drafod sgiliau a phrofiad ymgeiswyr a gafwyd o gyflogaeth neu mewn rolau gwirfoddol gan gynnwys, lle bo hynny'n berthnasol, yr ynadaeth.

1.84 Gall aelodau'r panel wneud eu nodiadau eu hunain yn ystod y cyfweliad pan nad ydynt yn siarad â'r ymgeisydd. Dylai pob aelod o'r panel gofnodi ei asesiad ei hun cyn i unrhyw un fynegi ei farn am yr ymgeisydd. Dylai cadeirydd y panel wedyn ofyn i bob aelod am ei farn, cyn rhoi ei farn ei hun.

1.85 Rhaid i gadeiryddion y paneli lenwi'r ffurflen asesu (**Atodiad 1E**) ar ôl i bob ymgeisydd gael ei gyfweld a llofnodi'r datganiad cadarnhau (**Atodiad 1F**). Dylid rhoi'r datganiadau wedi'u llofnodi ynghlwm wrth y ffurflenni asesu wedi'u llenwi.

1.86 Rhaid dinistrio'r holl nodiadau unigol ar ddiwedd sesiwn y cyfweliad.

1.87 Er y dylai ymgeiswyr adael y cyfweliad yn teimlo eu bod wedi cael eu profi'n iawn, dylent deimlo bod hyn wedi cael ei wneud gyda chwrteisi a phroffesiynoldeb.

1.88 Pan fydd euogfarn sydd wedi darfod wedi cael ei datgelu mewn camgymeriad, ni ddylai'r Pwyllgor Ymgynghorol na'r Swyddfa Farnwrol ei hystyried fel euogfarn sydd wedi darfod, ac ni all fod yn sail dros eithrio rhywun o unrhyw swydd na'i ragfarnu mewn unrhyw ffordd, mewn unrhyw alwedigaeth na chyflogaeth.

**Penodiadau**

1.89 Dylid cyflwyno argymhellion ar gyfer penodi i Adran Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol (sy'n gweithredu ar ran yr Arglwydd Ganghellor). Rhaid i Bwyllgorau Ymgynghorol wneud yr holl argymhellion i aelodau nad ydynt yn ynadon drwy'r broses Avature ATS.

1.90 Dylid cynnwys y dogfennau canlynol gyda phob argymhelliad:

- rhestr o'r ymgeisydd/ymgeiswyr yr argymhellir eu penodi;
- copïau o **Atodiadau 1B - 1G** wedi'u llenwi ar gyfer pob ymgeisydd;

- cadarnhad o gliriad sylfaenol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer aelodau nad ydynt yn ynadon;
- copi o unrhyw ddeunyddiau recriwtio, a manylion ynghylch sut a ble cafodd swyddi gwag eu hysbysebu; a
- rhestr o'r ymgeiswyr na argymhellir eu penodi.

1.91 Bydd adran Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol yn prosesu'r penodiadau ac yna'n hysbysu'r rhai a benodir a'r Pwyllgor Ymgynghorol.

1.92 Bydd rhestr o'r penodiadau newydd hefyd yn cael ei chyhoeddi ar gov.uk. Cyhoeddir manylion unrhyw weithgarwch gwleidyddol sylweddol a ddatganwyd gan ymgeisydd llwyddiannus pan gyhoeddir y penodiad.

1.93 Os oes gan adran Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol bryderon am ymgeisydd yr argymhellir ei benodi, bydd Pennaeth adran Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol yn cysylltu â'r Ysgrifennydd i drafod y mater.

**Proses glirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**

1.94 Bydd gan bob pwyllgor gyd-lofnodwr dynodedig y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer aelodau newydd o'r Pwyllgor Ymgynghorol nad ydynt yn ynadon.

1.95 Os oes angen arweiniad pellach, mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cyhoeddi canllawiau defnyddiol ar-lein, gan gynnwys ar gyfer ymgeiswyr. Mae'r wybodaeth hon ar gael drwy'r wefan ganlynol: [www.gov.uk/disclosure-barring-service-check.](www.gov.uk/disclosure-barring-service-check)

1.96 Dylai Pwyllgorau Ymgynghorol ganiatáu o leiaf **deg diwrnod gwaith** i wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gael eu cwblhau.

1.97 Nid yw cyd-lofnodwyr y Pwyllgor Ymgynghorol yn cael copïau o dystysgrifau cofnodion datgelu gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Ar ôl i ymgeiswyr gael tystysgrif DBS, rhaid iddynt ddarparu'r copi gwreiddiol neu gopi wedi'i sganio i'r Ysgrifennydd i'w gadarnhau.

**Adolygu penderfyniad i beidio ag argymell rhywun i'w benodi**

1.98 Mae gan ymgeiswyr na chawsant eu hargymell i'w penodi yn dilyn cyfweliad lle nad oeddent yn bodloni'r safon ofynnol hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad ar sail yr amodau canlynol:

- os oedd y broses ddethol wedi cael ei chamgymhwyso; neu
- roedd aelod o'r panel cyfweld wedi ymddwyn yn amhriodol.

1.99 Rhaid i'r ymgeisydd nodi sut y cafodd ei ragfarnu ar y naill neu'r llall o'r seiliau uchod er mwyn i'w apêl gael ei hystyried. Rhaid i'r ymgeisydd fod wedi gofyn am adborth ac wedi'i ystyried cyn gofyn am adolygiad o ganlyniad ei gais.

1.100 Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol o'r broses adolygu hon a chael dyddiad cau o **bymtheg diwrnod gwaith** o ddyddiad cael adborth i gyflwyno eu cais

am adolygiad y mae'n rhaid iddo gynnwys manylion eu rhesymau dros ofyn am adolygiad. Ni ddylid bwrw ymlaen â cheisiadau am adolygiad a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau oni bai fod amgylchiadau eithriadol.

1.101 Nid oes hawl i ofyn am adolygiad o ganlyniadau'r broses didoli ceisiadau, lle cawsant eu gwrthod ar sail cymhwysedd, nac ar gyfer ymgeiswyr a gyrhaeddodd y safon ofynnol yn y cyfweliad ond na chawsant eu hargymell ar gyfer penodiad oherwydd bod swyddi gwag yn cael eu llenwi gan ymgeiswyr eraill sy'n sgorio'n uwch. Wrth gyfathrebu ag ymgeiswyr o'r fath dylid ei gwneud yn glir bod penderfyniad y Pwyllgor Ymgynghorol ynghylch peidio ag argymell yn derfynol.

1.102 Y Pwyllgor Ymgynghorol sy'n gyfrifol am adolygu penderfyniadau yn y lle cyntaf a dylai wneud hynny o fewn **ugain diwrnod gwaith** i dderbyn cais am adolygiad.

1.103 Lle nad yw'n ymarferol i'r Pwyllgor Ymgynghorol llawn adolygu'r penderfyniad, dylid cynnull cworwm adolygu ar wahân o dri aelod o'r Pwyllgor Ymgynghorol i wneud hynny. Dylai'r tri aelod gynnwys ynadon ac aelodau o'r Pwyllgor nad ydynt yn ynadon.

1.104 Lle bo'n berthnasol, mae'n bwysig bod atgofion aelodau'r panel a gymerodd ran yn y cyfweliad yn cael eu ceisio a'u hystyried fel rhan o'r broses adolygu. Efallai y bydd angen yr wybodaeth hon hefyd os caiff y mater ei gyfeirio wedyn at yr Uwch Farnwr Llywyddol i'w ystyried.

1.105 Efallai y bydd y Pwyllgor Ymgynghorol neu gworwm yr adolygiad yn penderfynu cadarnhau'r penderfyniad. Neu, efallai y byddant yn penderfynu y dylai'r ymgeisydd gael ei gyfweld eto gan banel gwahanol.

1.106 Dylid hysbysu ymgeiswyr o fewn **pum diwrnod gwaith** i ganlyniad yr adolygiad a rhoi rhesymau iddynt dros y penderfyniad a wnaed. Rhaid dweud wrthynt hefyd, os nad ydynt yn derbyn y penderfyniad, y gallant ofyn am adolygiad pellach gan yr Uwch Farnwr Llywyddol.

### Cais am adolygiad gan yr Uwch Farnwr Llywyddol / Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol

1.107 Gall ymgeisydd ofyn am adolygiad o benderfyniad a wneir gan Bwyllgor Ymgynghorol a bydd yn cael ei ystyried naill ai gan yr Uwch Farnwr Llywyddol neu'r Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol. Ni fydd yr Uwch Farnwr Llywyddol neu'r Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol ond yn ystyried cadarnhau cais am adolygiad os oes tystiolaeth glir bod y broses ddethol wedi cael ei chamgymhwyso neu fod aelod o'r panel cyfweld wedi ymddwyn yn amhriodol.

1.108 Os bydd y Pwyllgor Ymgynghorol yn derbyn cais am adolygiad o'u penderfyniad, dylid anfon hwn, gyda'r holl bapurau perthnasol, at adran Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol o fewn **pum diwrnod gwaith.**

1.109 Y targed ar gyfer cwblhau adolygiad gan yr Uwch Farnwr Llywyddol neu'r Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol ar gyfer ymgeiswyr yw **35 diwrnod gwaith** ar ôl i'r holl bapurau perthnasol ddod i law. Fodd bynnag, gall oedi ddigwydd o bryd i'w gilydd oherwydd y galw ar amser yr Uwch Farnwr Llywyddol.

1.110 Mae penderfyniad yr Uwch Farnwr Llywyddol neu'r Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol yn derfynol.

1.111 Gall yr Uwch Farnwr Llywyddol neu'r Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol benderfynu cadarnhau penderfyniad y Pwyllgor Ymgynghorol/y cworwm adolygu, neu gall benderfynu bod yn rhaid ail-gyfweld yr ymgeisydd. Dylai ymgeiswyr gael gwybod yn ysgrifenedig am ganlyniad eu hadolygiad gan adran Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol o fewn **10 diwrnod gwaith** i benderfyniad gan yr Uwch Farnwr Llywyddol neu'r Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol. Anfonir copi o'r llythyr at Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol.

1.112 Os na fydd yr Uwch Farnwr Llywyddol neu'r Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol yn cadarnhau penderfyniad y Pwyllgor Ymgynghorol, bydd adran Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol yn rhoi crynodeb i'r Ysgrifennydd o unrhyw resymau a roddwyd.

### Rôl yr Ysgrifennydd ynglŷn â chyfweliadau

1.113 Ni ddylai'r Ysgrifennydd fod yn bresennol mewn cyfweliadau ar gyfer pwyllgorau recriwtio, er y gall arsylwi cyfweliadau drwy drefniant ymlaen llaw. Fodd bynnag, dylai Ysgrifennydd neu Ddirprwy enwebedig fod ar gael bob amser i gynghori paneli cyfweld ar unrhyw faterion gweinyddol neu bolisi sy'n ymwneud â'r broses ddethol. Bydd yr Ysgrifennydd yn rhan o'r panel cyfweld ar gyfer pwyllgorau ymddygiad.

1.114 Dylai ysgrifenyddion hefyd wirio ansawdd sampl o ffurflenni asesu wedi'u llenwi a chodi unrhyw faterion neu bryderon gyda chadeirydd y panel.

### Addasiadau rhesymol ar gyfer aelodau panel nad ydynt yn ynadon

1.115 Bydd adran Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol yn ysgrifennu at yr ymgeiswyr yr argymhellir eu penodi'n aelodau nad ydynt yn ynadon. Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb 2010, bydd y llythyr penodi yn gofyn a oes angen addasiadau rhesymol ar yr ymgeisydd i'w helpu i gyflawni dyletswyddau aelod o'r pwyllgor, er enghraifft cyfarpar arbenigol neu addasiadau i adeiladau.

1.116 Os bydd yr ymgeisydd yn gofyn am addasiadau rhesymol, bydd adran Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol yn cysylltu ag Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol i drafod sut y bydd trefniadau'n cael eu rhoi ar waith yn lleol i asesu ymarferoldeb darparu'r addasiadau hynny.

1.117 Rhaid i'r rhagdybiaeth bob amser fod o blaid dod o hyd i ffyrdd o benodi ymgeisydd addas sydd ag anabledd. Dylai Pwyllgorau Ymgynghorol fod mor hyblyg â phosibl wrth ystyried sut y gellid cyflawni hynny.

### Penodiad heb argymhelliad gan Bwyllgor Ymgynghorol

1.118 Mewn amgylchiadau eithriadol, gall yr Arglwydd Ganghellor, gyda chytundeb yr Arglwydd Brif Ustus, wneud penodiad heb ofyn am argymhelliad gan banel.

## Aseswyr Penodiadau Cyhoeddus

1.119 O bryd i'w gilydd, gall y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus benodi aelodau i'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Archwilio neu gynnal 'archwiliadau dirybudd' ar brosesau recriwtio a dethol i sicrhau eu bod yn glynu wrth y Cod Llywodraethiant ar Benodiadau Cyhoeddus.

1.120 Bydd adran Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol yn helpu i hwyluso'r broses hon ac yn cynghori Pwyllgorau yn unol â hynny.

## Cadw Cofnodion

1.121 Rhaid i Bwyllgorau Ymgynghorol gadw'r holl ddogfennau sy'n ymwneud â recriwtio a dethol ymgeiswyr aflwyddiannus.

1.122 Rhaid dinistrio dogfennau ymgeiswyr aflwyddiannus yn ddiogel ar ôl dwy flynedd o ddyddiad o pan ddaeth y cais i law.

1.123 Rhaid cadw gwybodaeth bersonol ymgeiswyr llwyddiannus tra byddant yn aelodau a rhaid ei dinistrio'n ddiogel ar ôl chwe blynedd ar ôl iddynt adael y rôl.

## Hyfforddiant

1.124 Rhaid i aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Recriwtio sydd newydd gael eu penodi, gan gynnwys yr Arglwydd Raglaw neu Gadeirydd penodedig arall y Pwyllgor Ymgynghorol gwblhau'r hyfforddiant gofynnol[7] cyn cymryd rhan yn y broses o ddewis ymgeiswyr ar gyfer yr ynadaeth. Rhaid i aelodau newydd y Pwyllgor Ymgynghorol ar Ymddygiad gwblhau unrhyw hyfforddiant gofynnol cyn cymryd rhan mewn materion ymddygiad.

1.125 Rhaid i aelodau o Bwyllgorau Ymgynghorol ar Recriwtio nad ydynt yn ynadon teulu wneud y pethau canlynol:

- ymgymryd â hyfforddiant ymgyfarwyddo â'r teulu; a hefyd
- arsylwi ar o leiaf un sesiwn o'r llys teulu.

1.126 Rhaid i aelodau nad ydynt yn ynadon gael o leiaf ddau arsylwad wedi'u tiwtora yn y llys ar ôl eu penodi. Ni fydd aelodau nad ydynt yn ynadon yn gallu mynd i gael hyfforddiant ynadon fel hawl, er y gall rhai elfennau fod yn agored iddynt, drwy wahoddiad gan Ysgrifenyddion os ystyrir eu bod yn ddefnyddiol i ddarparu cyd-destun ehangach a dealltwriaeth o rôl yr ynad. Mae'n amhriodol i aelodau nad ydynt yn ynadon ddod yn aelodau cyswllt o Gymdeithas yr Ynadon.

---

[7] Mae GLITEF yn cynnig hyfforddiant i aelodau newydd Pwyllgor Ymgynghorol o dan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cytunwyd arno gyda'r Swyddfa Farnwrol. Y Swyddfa Farnwrol yw perchnogion cynnwys y deunydd hyfforddi.

1.127 Bydd GLITEF yn rhoi gwybodaeth i Bwyllgorau Ymgynghorol am yr hyfforddiant sydd ar gael.

1.128 Mae unrhyw aelod o'r Pwyllgor Ymgynghorol sy'n gwrthod mynd i gael hyfforddiant yn agored i gael ei ddiswyddo o'i rôl.

1.129 Dylai Cadeiryddion Pwyllgorau Ymgynghorol, Dirprwy Gadeiryddion, Ysgrifenyddion a Dirprwy Ysgrifenyddion fynd i gael yr hyfforddiant sy'n ofynnol gan aelodau eu Pwyllgor Ymgynghorol, os nad ydynt eisoes wedi gwneud hynny.

## Ymddygiad a Chwynion

1.130 Er mwyn cynnal hyder y cyhoedd yng ngwaith Pwyllgorau Ymgynghorol, rhaid i Gadeiryddion, aelodau ac Ysgrifenyddion lynu wrth y saith egwyddor a nodir ar y safonau mewn bywyd cyhoeddus: Anhunanoldeb; Uniondeb; Gwrthrychedd; Atebolrwydd; Bod yn Agored; Gonestrwydd; Arweinyddiaeth. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: https://www.gov.uk/government/publications/the-7-principles-of-public-life.

1.131 Dylid delio â chwynion a wneir yn erbyn Cadeiryddion, aelodau neu Ysgrifenyddion Pwyllgorau Ymgynghorol yn unol â'r canllawiau yn **Atodiad 1K.**

## Materion i'w dwyn i sylw'r ysgrifennydd

1.132 Rhaid i aelodau roi gwybod i Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol am y pethau canlynol:

- unrhyw achos troseddol neu sifil yn eu herbyn, neu unrhyw achos maent yn dod yn rhan ohono mewn unrhyw ffordd, a'r canlyniad;
- os byddant yn mynd yn fethdalwr neu'n gysylltiedig ag unrhyw drafferthion ariannol eraill, neu os bydd cwmni maent yn gyfarwyddwr arno'n cael ei ddiddymu;
- os yw priod, partner sifil, partner, aelod o'r teulu neu berthynas agos yn rhan o unrhyw achos troseddol, ac o'r canlyniad; neu
- os ydynt yn bwriadu derbyn swydd a fyddai wedi eu hanghymhwyso rhag cael eu penodi i'r Pwyllgor.

## Cofrestr buddiannau

1.133 Rhaid i aelodau newydd gwblhau datganiad adeg penodi (**Atodiad 1G**) er mwyn galluogi'r Pwyllgor Ymgynghorol ac unrhyw is-bwyllgorau i gynnal cofrestr buddiannau (**Atodiad 1H**).

1.134 Dylai Cadeiryddion ac Ysgrifenyddion Pwyllgorau Ymgynghorol atgoffa'r aelodau o leiaf unwaith y flwyddyn o'r angen i ddiweddaru'r gofrestr. Rhaid i'r gofrestr fod ar gael i unrhyw un sy'n dymuno ei gweld.

1.135 Rhaid i'r Ysgrifennydd hysbysu adran Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol os bydd aelod yn ymgymryd â gwaith neu fuddiant personol a allai achosi gwrthdaro posibl rhwng buddiannau.

## Treuliau

1.136 Nid oes gan ymgeiswyr am aelodaeth o'r Pwyllgor Ymgynghorol hawl i gael ad-daliad am dreuliau a gafwyd wrth fynd ar drywydd eu cais.

1.137 Gall Cadeiryddion ac aelodau Pwyllgorau Ymgynghorol sy'n mynd i gyfarfodydd (busnes, cyfweliadau neu baneli cynnal ymchwiliadau) Pwyllgorau Ymgynghorol, neu sy'n mynd i gael hyfforddiant gorfodol, hawlio'r treuliau perthnasol gan GLITEF.

1.138 Dylai ysgrifenyddion sicrhau bod gwybodaeth am dreuliau a'r broses hawlio ar gael i Gadeiryddion ac aelodau Pwyllgorau Ymgynghorol.

## Achosion cyfreithiol

1.139 Oni bai eu bod yn gweithredu'n anonest, yn annidwyll, neu'n fyrbwyll, ni fydd Cadeiryddion Pwyllgorau Ymgynghorol, aelodau, Ysgrifenyddion, Dirprwy Ysgrifenyddion a GLITEF a staff cymorth gweinyddol y Swyddfa Farnwrol yn wynebu atebolrwydd cyfreithiol personol na disgwyl iddynt ysgwyddo'r gost o ymateb i achosion cyfreithiol o ran pethau a wneir neu a hepgorir wrth arfer eu dyletswyddau, neu mewn cysylltiad â nhw.

1.140 Os bydd Pwyllgor Ymgynghorol yn cael ei fygwth ag achos cyfreithiol a ddygwyd gan ymgeisydd neu ynad sy'n gwasanaethu, neu'n dod yn ymwybodol o achos o'r fath, rhaid i'r Ysgrifennydd roi gwybod i adran Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol ar unwaith.

## Perthynas y Pwyllgor Ymgynghorol â GLITEF, Cadeiryddion y Fainc a chadeiryddion paneli teulu

1.141 GLITEF sy'n darparu'r Ysgrifennydd a'r staff cymorth ar gyfer Pwyllgorau Ymgynghorol. Dylid gofyn am farn gweinyddiaeth GLITEF a Chadeiryddion y Fainc drwy eu gwahodd i'r rhan berthnasol o gyfarfod y Pwyllgor Ymgynghorol.

1.142 Ar wahân i'r Ysgrifennydd mewn achosion priodol - yn enwedig achosion ymddygiad - ni chaiff staff gweinyddol GLITEF gymryd rhan yn nhrafodaethau eraill y Pwyllgor Ymgynghorol, gan gynnwys trafodaethau ar geisiadau unigol neu ymchwiliadau a gynhelir gan y Pwyllgor Ymgynghorol.

1.143 Mae'n bwysig bod cysylltiadau gwaith cynhyrchiol rhwng Pwyllgorau Ymgynghorol a Chadeiryddion y Fainc/Dirprwy Gadeiryddion y Fainc a ddylai fod yn rhan o drafodaethau am anghenion y fainc, wedi'u hwyluso gan Ysgrifennydd neu Ddirprwy'r Pwyllgor Ymgynghorol. Er enghraifft, Cadeiryddion y Fainc sy'n gyfrifol am reoli eisteddiadau a rhoi caniatâd i fod yn absennol am hyd at 12 mis mewn unrhyw gyfnod o 24 mis. Gallant gyfeirio achosion at y Pwyllgor Ymgynghorol lle bo angen a rhaid iddynt gyflwyno

adroddiad blynyddol ôl-weithredol neu adroddiad ddwywaith y flwyddyn i’r Pwyllgor Ymgynghorol.

1.144 Bydd angen i Bwyllgorau Ymgynghorol drafod cynlluniau recriwtio arfaethedig a hwylusir gan Ysgrifenyddion neu Ddirprwyon, gyda chadeiryddion Pwyllgorau Hyfforddi, Cymeradwyo, Awdurdodi ac Arfarnu Teulu ynghylch anghenion y panel teulu, ac a oes angen i’r Pwyllgor recriwtio ymgeiswyr yn uniongyrchol i’r panel teulu.